Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Dyddiad:	**Dydd Mercher 8 Ionawr 2020**
Amser:	**10:30-11.30am**
Teitl:	**Papur tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21 gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

Diben

1. Darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r cynigion cyllidebol ynghylch y Gymraeg fel y'u hamlinellwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Cyfeiriad Strategol

2. Ym mis Gorffennaf 2017, lansiwyd ein Strategaeth Iaith Gymraeg: Cymraeg 2050, sy'n nodi ein gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd o 10% i 20% erbyn 2050. Mae tair prif thema i'r strategaeth:

    - Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
    - Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
    - Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n golygu sicrhau'r seilwaith a'r cyd-destun cywir i alluogi i themâu 1 a 2 ddigwydd.

3. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn dangos bod tua 562,000 o siaradwyr Cymraeg yn 2011. Yn ystod y broses o ddrafftio strategaeth *Cymraeg 2050*, rhagwelwyd mai nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (hynny yw, nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelwyd pe bai'r patrymau a'r tueddiadau cyffredinol ynghylch y Gymraeg a'r boblogaeth yn parhau tan 2050, heb unrhyw ymyrraeth bellach i gynyddu nifer y siaradwyr) fyddai 666,000.

4. Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, felly, roedd angen newid sylweddol i sicrhau'r cynnydd angenrheidiol. Mae'r strategaeth yn dilyn gweledigaeth i gynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd o'r iaith, a gwella'r seilwaith gan ddefnyddio dull gydol oes a welir mewn gweinyddiaethau eraill ag ieithoedd lleiafrifol, fel Catalonia.

5. Roedd strategaethau iaith blaenorol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gynnal nifer y siaradwyr, ond mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn fwriadol arloesol. Ei nod yw newid ffordd pobl o feddwl a gweithio tuag at sefyllfa lle mae'r iaith yn ffynnu o ddifrif ac yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywydau bob dydd siaradwyr rhugl, y rhai sydd o bosibl yn gyndyn o ddefnyddio'r iaith a siaradwyr newydd.

6. Mae'r strategaeth hon yn pennu trywydd ar gyfer y daith tuag at filiwn o siaradwyr (datblygwyd taflwybr ochr yn ochr â'r strategaeth i ddangos un llwybr

posibl o gyrraedd y miliwn erbyn 2050, ar sail y bwriadau polisi a nodir yn y strategaeth).

7. Mae Rhaglen Waith 2017-21 *Cymraeg 2050,* a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth, yn pennu'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod y Cynulliad hwn i osod y sylfeini. Rydym hefyd yn cyhoeddi cynlluniau gweithredu blynyddol sy'n rhoi manylion ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac adroddiadau blynyddol sy'n rhoi manylion yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae mwy o wybodaeth am y cerrig milltir sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith wedi'i chynnwys ym mharagraffau 33-46. Rydym wrthi'n sefydlu Prosiect 2050 i roi hwb i'r ymdrechion i gyflawni *Cymraeg 2050*. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad i Gefnogi a Hybu'r Gymraeg, a darparodd argymhellion ynghylch y camau nesaf i'w cymryd. Ym mis Awst, cyhoeddais fod cyllid wedi'i gytuno i gyflogi arbenigwyr i arwain a chynghori Prosiect 2050, uned amlddisgyblaethol newydd a fydd yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru a thu hwnt i'n cynorthwyo i gyflawni ein nodau gyda'n gilydd. Bydd gan Prosiect 2050 y dasg o:

   - gydlynu'r gwaith cynllunio ar gyfer ein llwybr tuag at y miliwn, o'r blynyddoedd cynnar, drwy'r ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg, i addysg ôl-orfodol, i Gymraeg i oedolion;
   - dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd, a gwerthuso mentrau cyfredol; a
   - cefnogi meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw ein cymunedau Cymraeg eu hiaith ac at y defnydd cynyddol o'r Gymraeg, yn unol â *Cymraeg 2050*.

8. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cefnogi gweledigaeth *Cymraeg 2050.*

Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2020-21

9. Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yw £37.216 miliwn: £36.831 miliwn mewn refeniw a chyfalaf o £0.385 miliwn. Er gwybodaeth, y Gweinidog Addysg sy'n gyfrifol am addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog a gefnogir gyda chyllideb refeniw o £12.675 miliwn. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o gyfanswm cyllidebau'r Gymraeg yn ôl portffolio:

TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg

Cam Gweithredu	Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £ '000	Addasiadau Gwaelodlin £ '000	Gwaelod-lin Ddiwygi-edig 2020-21 £ '000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynllun-iau Newydd 2020-21
MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg						
Y Gymraeg	Y Gymraeg	20,949	-	20,949	-	20,949
	Comisiynydd y Gymraeg	3,157	-	3,157	50	3,207

Cyfanswm		**24,106**	**-**	**24,106**	**50**	**24,156**
MEG Addysg						
Y Gymraeg mewn Addysg	Y Gymraeg mewn Addysg	14,325	(500)	13,825	(1,150)	12,675
Cyfanswm	**CYFANSWM**	**14,325**	**(500)**	**13,825**	**(1,150)**	**12,675**
Cyfanswm Cyffredinol		**38,431**	**(500)**	**37,931**	**(1,100)**	**36,831**

TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg					
Cam Gweithredu	**Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)**	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £ '000**	**Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £ '000**	**Newid £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21**
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	-	-	385	385
Cyfanswm		**-**	**-**	**385**	**385**
Cyfanswm Cyffredinol		**-**	**-**	**385**	**385**

10. O fewn y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a’r Gymraeg, darparwyd cyllid ychwanegol i Gomisiynydd y Gymraeg: cyllid refeniw o £0.05 miliwn i gefnogi costau staffio a chyllid cyfalaf o £0.385 miliwn i weithredu system TG newydd.

11. O fewn y MEG Addysg, mae’r gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn £12.675 miliwn ar gyfer 2020-21. Mae'r gyllideb yn cynnwys trosglwyddo cyllid o £1.650 miliwn o fewn y MEG ar gyfer hyfforddi ymarferwyr y Gymraeg, oherwydd bod y cyfrifoldeb am y cynllun Sabothol a CYDAG bellach yn dod o fewn y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Yn ogystal, mae’r £0.5 miliwn a dynnwyd o'r llinell sylfaen mewn perthynas â chyllid a ddyrannwyd yng nghytundeb Cyllideb Dwy Flynedd Plaid Cymru ar gyfer adnoddau addysg ddwyieithog wedi'i adfer ar gyfer 2020-21. Bydd yr arian hwn yn sicrhau parhad y rhaglen gyfredol i gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd a chymwysterau galwedigaethol ôl-16.

12. Felly, mae’r gyllideb Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2020-21 yn cynnwys parhad o’r cyllid ychwanegol o £1.5 miliwn a ddyrannwyd yn 2018-19 o ganlyniad i'r cytundeb Cyllideb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru: £0.5 miliwn fel y nodwyd uchod i wella'r ddarpariaeth o adnoddau addysg dwyieithog ac £1 filiwn ar gyfer y Mudiad Meithrin i gynyddu’r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

13. Yr alldro olaf ar gyfer 2018-19 ar gyfer y Gymraeg oedd £37.838 miliwn. Yn 2019-20, y rhagolwg yw £38.431 miliwn yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd.

14. Rhaid imi nodi hefyd mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd portffolio Llywodraeth Cymru ac mae gwariant ar yr iaith wedi'i ymgorffori yn y ddarpariaeth o fewn nifer o bortffolios gweinidogol eraill.

Rhan 1: Sylwebaeth ar ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)

BEL y Gymraeg

15. Diben BEL y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* mewn perthynas â chynyddu defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir.

16. Mae'r cyllid o fewn BEL y Gymraeg wedi'i gynnal ar £20.949 miliwn ar gyfer 2020-21. Fel yr amlinellwyd yn y tabl uchod, mae'r llinell sylfaen ar gyfer 2020-21 yn cynnwys parhad o'r cyllid o £5 miliwn ar gyfer y fenter Cymraeg Gwaith a'i hyrwyddo a ddyrannwyd yn y Cytundeb Cyllideb Dwy Flynedd gyda Phlaid Cymru. Mae'r gyllideb yn cefnogi gweithgareddau partneriaeth yn bennaf gan gynnwys:

    - **Cymraeg i Blant** – i gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Rhoddir mwy o fanylion ym mharagraff 37;
    - Cyflwyno hyfforddiant Cymraeg drwy'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.** Rhoddir mwy o fanylion ym mharagraff 47.
    - Cyflwyno'r **Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg**;
    - Cynyddu **defnydd o'r iaith mewn cymunedau,** er enghraifft drwy ddarparu grantiau i'r Mentrau Iaith, Merched y Wawr a'r Ffermwyr Ifanc;
    - Cyflwyno rhaglen y **Siarter Iaith**;
    - Ariannu arbenigedd ychwanegol mewn cynllunio ieithyddol fel rhan o **Prosiect 2050**;
    - Cyllido **Swyddogion Busnes** o fewn y gymuned a'r **Llinell Gymorth Gymraeg** newydd ar gyfer busnesau bach;
    - Ariannu **Tribiwnlys y Gymraeg**;
    - **Gwaith ymchwil**, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.

BEL Comisiynydd y Gymraeg

17. Mae'r gyllideb yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg sydd â swyddogaethau a phwerau eang, gan gynnwys:

    - Gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
    - Gweithredu system safonau'r Gymraeg;
    - Cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd;
    - Ymchwilio i ymyrraeth honedig â rhyddid unigolyn i gyfathrebu yn Gymraeg;

- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o iaith – yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat.

BEL y Gymraeg mewn Addysg

18. Mae’r BEL yn cefnogi camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg fel pwnc yn *Cymraeg 2050*, gan gynnwys:

- Cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu’r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg i gynnwys gweithredu argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a datblygu rheoliadau newydd;
- Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
- Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

Rhan 2: Rhagor o wybodaeth

Gwybodaeth am sut y caiff camau i weithredu portffolio y Gymraeg a’u canlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian

19. O ran sicrhau gwerth am arian, mae’n hanfodol dangos yn glir sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb. Mae gennyf brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

20. Ar gyfer y weinyddiaeth hon, bydd cynnydd wrth gyflawni'r targedau tymor byr a amlinellir yn y *Rhaglen Waith ar gyfer 2017-21* yn fesur o’r cynnydd tuag at gyflawni nodau *Cymraeg 2050*. Caiff y cynnydd cyffredinol **ei fonitro** o flwyddyn i flwyddyn drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn i adrodd yn ôl ar y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau i sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hail-flaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

21. Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl o ran cynghori ynghylch y cynnydd tuag at gyrraedd targed 2050 ac effeithiolrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae swyddogion hefyd wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn prif ffrydio’r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi’r Llywodraeth, ac asesu risgiau a nodi camau i’w lliniaru.

22. Yn ogystal, rydym wrthi’n sefydlu Prosiect 2050 i roi ysgogiad ychwanegol i’r ymdrechion i gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050* fel y nodir uchod ym mharagraff 7. Mae hyn yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf yn dilyn ei ymchwiliad ar Gefnogi a Hybu’r Gymraeg.

23. O ran gwerthuso, mae canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2017, Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd, yn cael eu defnyddio i lywio camau nesaf y broses o ddatblygu polisi. Byddwn yn adolygu'r gyllideb a ddyrennir i faes trosglwyddo'r Gymraeg a defnydd o fewn y teulu pan fyddwn yn ymgynghori ar y polisi trosglwyddo iaith newydd yn 2020.

24. Cyhoeddwyd Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant: Adroddiad Terfynol ym mis Chwefror 2019. Nod y gwerthusiad oedd archwilio a oedd y rhaglen wedi'i dylunio mewn ffordd a oedd yn galluogi i'w hamcanion gael eu cyflawni, ac asesu sut roedd y rhaglen yn cael ei gweithredu ar ei ffurf bresennol. Roedd ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn cwmpasu nodau ac amcanion, strwythurau a phrosesau'r rhaglen, a gweithio mewn partneriaeth. Ers mis Ebrill eleni, mae argymhellion yr adroddiad wedi bwydo i'r broses o ddatblygu'r rhaglen ymhellach. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i atgyfnerthu'r rhaglen ymhellach yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth a gynigir i deuluoedd o dan y rhaglen Cymraeg i Blant yn alinio'n llwyr â datblygiadau eraill ym maes addysg cyfrwng Cymraeg.

25. Mae dau werthusiad ar y gweill ar hyn o bryd: un o'r Siarter Iaith, ac un o'r Cynlluniau Sabothol Cymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg. Bwriad canfyddiadau'r gwerthusiad o'r Siarter Iaith yw llywio sut fydd y Siarter yn cael ei dylunio a'i gweithredu yn y dyfodol fel rhan o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ailddylunio'r Siarter mewn cydweithrediad â'r pedwar consortia addysg rhanbarthol. Disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau ym mis Chwefror 2020. Mae dau nod i'r gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Cymraeg. Y cyntaf yw archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion. Yr ail nod yw asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol at ddarpariaeth datblygiad proffesiynol i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad strategol y Cynllun Sabothol a hyfforddiant i ymarferwyr yn y dyfodol. Disgwylir i adroddiad ar y gwerthusiad gael ei gyhoeddi yn 2020.

26. Yn ogystal â'r gwerthusiadau hyn, mae astudiaeth ymchwil ar y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi bron â dod i ben. Nod yr astudiaeth hon yw darparu asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar y berthynas rhwng iaith a'r economi, a'r dulliau a'r ymagweddau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hyn. Bwriedir i ganfyddiadau'r adolygiad hwn (i'w cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd) lywio gweithgaredd ymchwil yn y dyfodol.

27. O ran **gwariant ataliol**, rydym yn buddsoddi mewn ymchwil ar safbwyntiau'r gynulleidfa i ddysgu mwy am ymddygiad y cyhoedd a'u hagwedd tuag at yr iaith. Bydd hyn yn llywio ein strategaeth farchnata a'r ffordd rydym yn targedu ein cynulleidfa, ac yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa gywir gyda'r neges gywir. Bydd hyn hefyd yn golygu y byddwn yn gwario ein cyllideb yn fwy effeithiol, yn ysgogi gwell canlyniadau, ac yn bwydo i mewn i strategaethau marchnata ein partneriaid, gyda'r nod o greu dull 'un llais' i hyrwyddo'r Gymraeg, a thrwy hynny leihau dyblygu gwaith a gwariant ar ddatblygu

negeseuon, brandio ac adnoddau. Y nod yw y bydd y gwaith hwn hefyd yn paratoi'r tir ar gyfer mentrau eraill, gan wneud i bobl ymateb yn fwy ffafriol i ymgyrchoedd fel y rhai sy'n annog rhieni i ystyried addysg Gymraeg i'w plant, trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu ac ati.

28. At hynny, mae gan ein targed o gynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg drwy gael 40 o grwpiau meithrin newydd erbyn 2021 y potensial i leihau gwariant ar hybu'r iaith ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn pan fyddant yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at y gwaith o greu'r amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn paratoi'r tir ar gyfer ymyriadau pellach ar ffurf, er enghraifft, y Siarter Iaith (sydd â'r nod o sefydlu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant ysgol o oedran ifanc)**.**

29. Mae'r dirwedd ddigidol hefyd yn newid sefyllfa'r Gymraeg gryn dipyn, a gellid ystyried sawl elfen ohoni fel gwariant ataliol. Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg bellach yn flwydd oed. Mae'r Cynllun yn cynnwys sicrhau bod cydrannau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal fel y gall pob sefydliad ac unigolyn eu defnyddio a'u hailddefnyddio'n eang. Mae lledaeniad technoleg Gymraeg hefyd yn hanfodol ar gyfer normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i'w defnyddio yn eu bywydau bob dydd.

30. Lansiwyd y Cynllun mewn Datganiad Llafar ar 23 Hydref 2018, ac mae'n ymdrin â thri maes allweddol:
    - **Technoleg Llais Cymraeg** – adnabod llais a'i droi'n destun Cymraeg, a throi testun yn lleferydd Cymraeg;
    - **Cyfieithu â chymorth cyfrifiadur** – rhannu ac ailddefnyddio cyfieithiadau testun Saesneg <> Cymraeg drwy gyfrwng technoleg 'cof cyfieithu';
    - **Technoleg Deallusrwydd Artiffisial Sgwrsio** – byddai peiriannau'n *deall* y Gymraeg (yn ogystal â'i *hadnabod*).

31. Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth a chyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i gynyddu defnydd o dechnoleg cyfrwng Cymraeg er mwyn gwneud arbedion sylweddol ym maes cyfieithu.

32. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nod ein cynlluniau gwariant yw sicrhau cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau tymor byr a'r rhai hirdymor.

Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) ym mhortffolio Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i gefnogi'r strategaeth *Cymraeg 2050* ac, yn enwedig dyraniadau i gyflawni'r 'cerrig milltir' fel y'u nodir yn *Rhaglen Waith 2017-2021*.

33. Rwyf wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ynghylch sut mae’r dyraniadau'n cefnogi *Cymraeg 2050* mewn adrannau blaenorol o'r papur hwn. Cyfeiriaf yn benodol yn awr at y cerrig milltir a gynhwysir yn Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017 - 2021.

34. Nid yw pob carreg filltir yn dod o fewn fy mhortffolio i. Fodd bynnag, mewn perthynas â phob un, dyrennir gwariant yn briodol i yrru’r cynnydd tuag at gyflawni’r cerrig milltir hyn.

35. Mae gwybodaeth am y cerrig milltir unigol wedi'i nodi isod. Rhestrir gwybodaeth am y cerrig milltir a ddaw o fewn portffolio’r Gweinidog Addysg yn yr adran nesaf o baragraff 40-46.

36. Rwy'n cwrdd â'r Gweinidog Addysg yn rheolaidd i drafod y synergeddau a'r hyn sy’n gorgyffwrdd rhwng ein portffolios mewn perthynas â'r Gymraeg.

Carreg filltir: **cynnydd bychan yn y teuluoedd sy’n trosglwyddo’r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011**

37. I gefnogi'r nod hwn, rydym wedi buddsoddi £0.73 miliwn yn y rhaglen Cymraeg i Blant yn 2019-20. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gytundeb pedair blynedd, a'n nod yw parhau i ariannu ar yr un lefel yn 2020-21. Amcanion y rhaglen yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

Carreg filltir: Cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed o gynyddu cyfraddau'r bobl sy’n defnyddio’r Gymraeg bob dydd o 10 y cant i 11 y cant erbyn 2021

38. Yn y pen draw, nod yr holl ymyriadau yn fy mhortffolio, ac felly'r holl ddyraniadau cyllideb cyfatebol, yw cynyddu'r defnydd o'r iaith, a byddant yn cael eu gwerthuso a'u monitro i sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir am BEL y Gymraeg (2020-21: £20.949 miliwn) a BEL Comisiynydd y Gymraeg (2020-21: £3.592 miliwn). O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â rheoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i gynyddu defnydd o'r iaith.

39. Mae’r prosiectau a’r partneriaid a ariennir o dan BEL y Gymraeg i gynyddu defnydd o'r iaith yn cynnwys:

- Y Mentrau Iaith;
- Yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Yr Urdd;
- Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- Prosiectau cymunedol (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a Merched y Wawr);
- Y Papurau Bro;
- Rhwydwaith o swyddogion busnes i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat;

- Prosiect ARFer Prifysgol Bangor, i gynyddu cyfathrebu rhyngbersonol a hyder yn y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle drwy addewidion ymddygiadol;
- Cronfa i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector ôl-16;
- Cronfa a ddyrannwyd i Gonsortia Addysg Cymru i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (Siarter Iaith);
- Cymraeg i Blant;
- Cronfa ar gyfer gwyliau bach;
- Dydd Miwsig Cymru.

Gan ein bod yn poeni am effaith bosibl Brexit, yn enwedig ar rai o gadarnleoedd y Gymraeg, rydym yn benderfynol o gynnig rhagor o gefnogaeth i ddefnyddio’r Gymraeg mewn mwy o leoliadau gwaith ac yn gymdeithasol. Caiff y gyllideb ei hadolygu ar ganol y flwyddyn pan fyddwn yn gwybod beth fydd Breixt yn ei olygu.

Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg i gefnogi *Cymraeg 2050*, yn enwedig cefnogi a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

40. Mae’r dyraniadau ar gyfer y camau gweithredu ym mhortffolio’r Gweinidog Addysg, sy’n cefnogi *Cymraeg 2050*, wedi’u cynnwys o fewn y BEL y Gymraeg mewn Addysg, sydd wedi’i leoli yn y MEG Addysg. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 11, £12.675 miliwn yw’r gyllideb ar gyfer 2020-21. Mae'r newid yn bennaf oherwydd y trosglwyddiad o £1.650 miliwn o fewn y MEG. Gwnaed hyn yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Cynllun Sabothol a CYDAG i'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Mae CYDAG yn ymgymryd â rhaglen o weithgareddau i gefnogi datblygiad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi'r Cynllun Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg. Mae gan y Cynllun Sabothol rôl ganolog o ran parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

41. Mae’r gweithgareddau a ariennir o'r dyraniad yn cynnwys datblygu’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a’r ddarpariaeth ddwyieithog, datblygu a gweithredu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), cefnogaeth i golegau AB a hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog, cefnogaeth ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth AU drwy gyfrwng y Gymraeg ac arwain ar ddatblygu addysg ôl-16. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Carreg filltir: Y nod o gefnogi’r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021

42. Mae £1 filiwn ychwanegol y flwyddyn wedi'i dyrannu i Mudiad Meithrin yn 2018-19 a 2019-20 i'w alluogi i ymgymryd â gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd mewn ardaloedd yng

Nghymru sydd â diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd fel pwynt mynediad at addysg Gymraeg (gweler paragraff 46-47 isod am fanylion pellach). Mae'r cyllid hwn yn cael ei gynnal ar gyfer 2020-21.

Carreg filltir: Cadw'r cynnydd yng nghanran y dysgwyr a fydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021

43. Dyrennir cyllid o £100,000 o'r BEL y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). O dan y ffrwd waith hon, cafodd *Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* eu gosod ar 5 Rhagfyr 2019, ac maent yn nodi trefniadau newydd ar gyfer paratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae darpariaethau newydd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â Chynlluniau sy'n cael eu paratoi ar sail targedau clir, uchelgeisiol. Mae'r targedau hyn wedi'u cyfrifo mewn ffordd sy'n dangos y cyfraniad y mae'n rhaid i awdurdodau lleol unigol ei wneud er mwyn cefnogi targedau cerrig milltir addysg *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2020.

44. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau") yn galw am gyfleoedd i drafod rhoi CSGA ar waith ac arfer dda ar lefel genedlaethol. Bwriedir cynnal y gynhadledd CSGA gyntaf fis Mawrth 2020. Hon fydd yn un o'r cynadleddau cyntaf i'w cynnal yng nghyfleuster cynadledda newydd y Llywodraeth yng Nghaerdydd sef "Yr Hafod".

45. Yn ogystal, mae adolygiad o ddynodiadau ysgolion ar sail eu darpariaeth Gymraeg ar y gweill, yn unol ag argymhellion a wnaed gan Fwrdd Cynghori CSGA ym mis Mai 2019. Y nod yw ymgynghori ar yr opsiynau lefel uchel i ailddiffinio dynodiadau ysgolion ar sail y ddarpariaeth Gymraeg dros y misoedd nesaf. Gall hyn arwain at adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a chanllawiau newydd, o bosibl, ynghylch dynodiadau ysgolion. Disgwylir i'r adroddiad terfynol, gydag argymhellion i wella'r system bresennol, gael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. **Mae arwyddion cynnar yn awgrymu ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd carreg filltir 2021 o gael 24% o ddysgwyr mewn Addysg Gymraeg**.

Carreg filltir: cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:

- 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16);
- 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16);
- 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

46. Mae cynllun gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017-2021, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg gorfodol dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050* a *Chenhadaeth ein Cenedl*. Mae'r Gweinidog Addysg yn arwain ar roi gweithgareddau a chamau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodwyd yn y cynllun gweithredu, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y MEG Addysg yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y gweithgareddau hyn yn 2020-21. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi ffigurau mewn perthynas â'r cynnydd yn erbyn y targed hwn yn Adroddiad Blynyddol *Cymraeg 2050* ar gyfer 2018-19.

Rhan 3: Meysydd penodol

Diweddariadau ar ddyraniadau yng nghyllideb 2020-21

Gwybodaeth am y dyraniad o £13.21 miliwn ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phrosiectau cysylltiedig.

47. Dyrannwyd cyfanswm o £13.21 miliwn o BEL y Gymraeg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2019-20. Rhannwyd y dyraniad hwn yn £8.810 miliwn i ariannu'r 11 darparwr sy'n cynnal y cyrsiau hyfforddi, £2.5 miliwn ar gyfer y fenter Cymraeg Gwaith a £1.9 miliwn i gynnal costau rhedeg y Ganolfan. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r Ganolfan i barhau i gynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu Cymraeg a datblygu eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnig ystod eang o gyfleoedd ar draws pum lefel i ddysgwyr ledled Cymru drwy rwydwaith y Ganolfan o 11 darparwr;
- gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys S4C, BBC Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, i gryfhau'r gefnogaeth i ddysgwyr;
- datblygu'r fenter Cymraeg Gwaith ymhellach, gan gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i feithrin sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Rydym wrthi'n trafod cyfleoedd i brif ffrydio Cymraeg Gwaith ar draws meysydd portffolio Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ystyried sut y mae gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn rhyddhau cyllid ar gyfer meysydd blaenoriaeth eraill, tra'n cynnal cyfleoedd i ddysgwyr.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y £3.22 miliwn a ddyrannwyd i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog yn ystod y blynyddoedd cynnar, a gwybodaeth am unrhyw werthusiad neu asesiad a wnaed o ganlyniad.

48. Mae cyllid o £3.03 miliwn, sy'n cynnwys £1 filiwn yn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer 2018-19, 2019-20 a 2020-21, wedi'i ddyrannu o'r BEL y Gymraeg mewn Addysg i Mudiad Meithrin, gan ei alluogi i gryfhau ei gefnogaeth i'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â chefnogi ei aelodaeth bresennol, mae'r cyllid hwn hefyd

wedi caniatáu i Mudiad Meithrin sefydlu rhaglen sy'n canolbwyntio'n benodol ar greu lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd mewn ardaloedd yng Nghymru sydd â diffyg darpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd. Mae 12 o Gylchoedd Meithrin newydd wedi'u sefydlu yn 2018-19, ac mae disgwyl i 14 o Gylchoedd Meithrin newydd gael eu sefydlu erbyn mis Mawrth 2020.

49. Fel rhan o'i brosesau monitro, mae Mudiad Meithrin yn casglu data gan bob un o leoliadau ei aelodau ynghylch nifer y plant sy'n eu mynychu, ynghyd â'u dilyniant i'r byd addysg Gymraeg. Rhennir y wybodaeth hon gydag awdurdodau lleol i'w bwydo i gylchoedd cynllunio. Yn ôl y data mwyaf diweddar, mynychodd 12,773 o blant ei Gylchoedd Meithrin a'i feithrinfeydd dydd. Aeth 88.1% o blant sy'n trosglwyddo o'r lleoliadau hyn i addysg ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg – y gyfran uchaf ers dechrau casglu'r data hyn – sy'n dangos pwysigrwydd y gwaith hwn o ran cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

50. Mae'r £0.19 miliwn sy'n weddill wedi'i ddarparu i Cwlwm – consortiwm o bum sefydliad blaenllaw sy'n cynrychioli darparwyr yn y sectorau gofal plant a chwarae – i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a chwarae. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i nodi ymarferwyr i gymryd rhan yn rhaglen hyfforddi Cymraeg 'Camau' a chefnogi eu defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau gofal plant a chwarae. Ein nod yw sicrhau y bydd 600 o ymarferwyr ar draws ystod eang o leoliadau yn cymryd rhan yn y rhaglen hon erbyn mis Mawrth 2020.

Gwybodaeth am y dyraniad o £3.17 miliwn i gomisiynu adnoddau dwyieithog i ddysgwyr a chanlyniadau'r gwaith hwn.

51. Dyrennir cyllid o £3.17 miliwn o'r BEL y Gymraeg mewn Addysg i sicrhau y darperir:

- adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg fel pwnc;
- adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg;
- adnoddau dwyieithog i gefnogi cymwysterau a'r cwricwlwm newydd.

52. Bydd gwaith i sicrhau bod gwerslyfrau a llyfrau adolygu Cymraeg ar gael ar gyfer holl gymwysterau cyffredinol diwygiedig CBAC ar lefel TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn parhau. Bydd cyllideb hefyd yn cael ei dyrannu i sicrhau y darperir adnoddau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol fel chwaraeon, busnes a gofal plant.

53. Gyda chyhoeddiad y cwricwlwm newydd ym mis Ionawr 2021, byddwn yn parhau i sicrhau bod adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gael i gefnogi'r broses o'i gyflawni. Ar hyn o bryd, mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys cyfrifiadura / codio, llafaredd yn y Gymraeg, y dimensiwn Cymraeg yn benodol mewn pynciau STEM a llên Saesneg Cymru.

54. Dyrennir cyllideb i ddarparu adnoddau i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn amaethyddiaeth, adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

55. Er mwyn cefnogi ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a cholegau addysg bellach, darperir cyllid i gynnal a datblygu ymhellach y porth terminoleg ar-lein 'Termiadur addysg', er mwyn sicrhau bod y derminoleg i'w defnyddio yn y byd addysg a chymwysterau yn gyfredol ac wedi'i safoni.

Manylion am y £0.73 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 'Cymraeg i Blant' a sut y cafodd yr arian hwn ei ddefnyddio.

56. Mae'r rhaglen 'Cymraeg i Blant', o fewn BEL y Gymraeg, wedi parhau i gefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol, gyda'r nod o gynyddu nifer y plant mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cynhaliwyd y cyllid hwn yn 2020-21.

57. Dechreuodd cytundeb newydd ar gyfer cyflwyno gweithgareddau lleol a chynnig cyngor a chefnogaeth i'r gynulleidfa darged sydd wrth wraidd y rhaglen hon ym mis Ebrill 2019. Bydd y £0.73 miliwn a ddyrannwyd i'r cytundeb hwn yn 2019-20 yn anelu at gynnig 3,000 o weithgareddau, gan ddarparu llwyfan i swyddogion Cymraeg i Blant gynnal 13,000 o drafodaethau un i un gyda rhieni a darpar rieni yn ystod y flwyddyn. Mae cefnogaeth ddwys wedi'i alinio ag ardaloedd lle mae darpariaeth blynyddoedd cynnar newydd yn cael ei datblygu i ddarparu llwybr clir o enedigaeth plentyn i ofal plant cyfrwng Cymraeg ac ymlaen i addysg Gymraeg.

Dyraniadau a sylwebaeth ynghylch y dyraniad o'r gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2020-21.

58. Dyraniad refeniw Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2020-21 yw £3.207 miliwn, sy'n caniatáu i'r Comisiynydd gyflawni ei ddyletswyddau. Cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2019-20 oedd £3.157 miliwn. Mae £0.05 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi'r dyfarniad cyflog.

59. Yn 2020-21, bydd dyraniad cyfalaf ychwanegol o £0.385 miliwn yn cefnogi uwchraddiadau hanfodol i'r system TG. Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu model TG sy'n defnyddio cwmwl yn hytrach na strwythur corfforol ac uwchraddio'r system wi-fi a chaledwedd er mwyn meithrin gwytnwch. Bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser i'w gwreiddio a'u gweithredu, ond rwy'n hyderus y bydd y buddsoddiad hwn yn arwain at rai arbedion refeniw dros amser gan y bydd y Comisiynydd yn gallu lleihau gwariant ar gontractwyr a thrwyddedau TG. Byddaf hefyd yn gofyn i'r Comisiynydd sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd, a'i fod yn lleihau ôl troed carbon y corff drwy leihau'r angen i deithio rhwng swyddfeydd.

Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg: Cynnydd sy'n ymwneud â'r £46 miliwn o wariant cyfalaf a ddyrannwyd i gefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg, a'r cyfalaf ychwanegol o £5 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i ddatblygu Neuadd Pantycelyn

60. Er mwyn cefnogi'r garreg filltir o gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn gyrru ymlaen y broses o gyflawni prosiectau cyfalaf a ariennir drwy Gronfa Grant y Cynnig Gofal Plant a Chyfalaf Cyfrwng Cymraeg cyfun o £46 miliwn a gyhoeddwyd yn ystod 2018-2019 (£32.81 miliwn o'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg a £13.02 miliwn o'r Grant Cyfalaf Blynyddoedd Cynnar). Mae'r chwistrelliad hwn o arian grant yn cefnogi 46 prosiect ar draws 20 awdurdod lleol a fydd, pan fydd yr holl brosiectau'n cael eu gwireddu, yn arwain at 2,818 o leoedd ysgol a gofal plant ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb cyllido hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gefnogi'r cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ei hangen i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050*.

61. Dyfarnwyd cyllid o £5 miliwn i ddatblygiad Neuadd Pantycelyn a £2.75 miliwn ar gyfer gwersylloedd antur awyr agored yr Urdd, sy'n gwneud cyfanswm o £53.75 miliwn i gefnogi addysg Gymraeg. Mae gan brosiect Pantycelyn £0.13 miliwn i'w hawlio o hyd ar ei gyllideb – rhagwelir y bydd yr arian hwn yn cael ei hawlio ym mis Ionawr 2020 ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae'r gwaith ar wersyll antur awyr agored yr Urdd yng Nglanllyn wedi cychwyn – hyd yma, ni hawliwyd unrhyw arian yn erbyn y prosiect hwn.

62. Bydd y prosiectau hyn yn rhoi hwb enfawr i'r Gymraeg yn yr ardaloedd dan sylw. Er enghraifft:

- trydedd ysgol Gymraeg yn Sir Fynwy;
- ysgolion cynradd newydd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful a Thorfaen (wedi'u cysylltu ag ysgol uwchradd);
- ehangu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol i ymdopi â'r galw yn e.e. Wrecsam, Sir y Fflint, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili;
- darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i gaffael iaith yn gynnar a denu dysgwyr pellach i'r sector cyfrwng Cymraeg e.e. yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy;
- canolfan Gymraeg arloesol yn Sir Ddinbych sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a chefnogaeth i'r rheini sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith;
- cefnogaeth i ganolfannau sy'n gweithio gyda mewnfudwyr yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin.

63. Mae dau brosiect a roddwyd ar y rhestr wrth gefn bellach wedi'u cymeradwyo, sef egin ysgol yn Nhredegar, Blaenau Gwent ac egin ysgol ar safle Pillgwenlli yng Nghasnewydd.